



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Safonau
Ymarfer
Osteopathig

Safonau Ymarfer Osteopathig

Gweithredol o 1 Medi 2019

A Cyfathrebu a
phartneriaeth â'r claf

B Gwybodaeth, sgiliau
a pherfformiad

C Diogelwch ac ansawdd
wrth ymarfer

D Proffesiynoldeb

Mae adran 13 o Ddeddf Osteopathiaid 1993 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol bennu'r safonau hyfedredd gofynnol ar gyfer ymarfer osteopat heg yn gymwys ac yn ddiogel.

Mae adran 19 o Ddeddf Osteopathiaid 1993 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol gyhoeddi Cod Ymarfer sy'n pennu'r safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan osteopathiaid ac yn rhoi cyngor mewn perthynas ag ymarfer osteopathig.

Datganiad o newidiadau

Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu'r Safonau Hyfedredd a hefyd y Cod Ymarfer. Mae datganiad o newidiadau rhwng y Safonau Ymarfer Osteopathig blaenorol (a oedd yn weithredol o 2012) a'r rhai yn y ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol: osteopathy.org.uk/ops.

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar 1 Medi 2018 a daw'n weithredol fel y Safonau Hyfedredd a'r Cod Ymarfer ar 1 Medi 2019.

Cynnwys

Y Safonau Ymarfer Osteopathig a'ch ymarfer chi	4
A. Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf	5
B. Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad	12
C. Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer	15
D. Proffesiynoldeb	19
Geirfa	28

Y Safonau Ymarfer Osteopathig a'ch ymarfer chi

Mae'r Safonau Ymarfer Osteopathig yn pennu'r safonau sy'n ofynnol i osteopathiaid eu cyrraedd o ran ymddygiad, moeseg a chymhwysedd er mwyn hyrwyddo iechyd a lles cleifion ac i'w diogelu rhag niwed. Maent yn cwmpasu'r Safonau Hyfedredd a'r Cod Ymddygiad sy'n ofynnol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993.

Mae'r safonau'n darparu fframwaith ar gyfer gofal osteopathig sy'n foesebol, yn gymwys ac yn ddiogel. Mae'r safonau hefyd yn chwarae rhan ganolog yn y gofynion ar gyfer hyfforddiant osteopathig a chofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar gyfer graddedigion osteopatheg yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r safonau'n pennu'r hyn a ddisgwylir gan osteopathiaid fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a reoleiddir. Rhaid i gleifion allu ymddiried mewn osteopathiaid er lles eu hiechyd. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i osteopathiaid gyrraedd safonau disgwylidig y Safonau Ymarfer Osteopathig. Mae osteopathiaid yn atebol yn bersonol am eu hymarfer proffesiynol a rhaid iddynt fod yn barod bob amser i gyfiawnhau eu penderfyniadau a'u gweithredoedd, gan egluro sut y maent wedi arfer eu crebwyll proffesiynol.

Mae'r safonau a'r canllawiau wedi'u trefnu yn bedair prif thema:

A Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf

B Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

C Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer

D Proffesiynoldeb

Mae'r safonau ym mhob thema wedi'u rhestru ar ddechrau pob adran. Cânt eu hatgynhyrchu wedyn gyda chanllawiau ategol ar gyfer pob un.

Yn y Safonau Ymarfer Osteopathig, defnyddir y termau 'rhaid', 'dylai/dylech' a 'gallai/gallech' yn y ffyrdd canlynol:

- Defnyddir **'rhaid'** pan fo disgwyl i osteopathiaid gydymffurfio. Gallai methiant i wneud hynny osod yr osteopath mewn perygl o wynebu achos cymhwysedd i ymarfer.
- Defnyddir **'dylai/dylech'** i ddynodi sut y gellir cyflawni'r safon. Fe'i defnyddir hefyd lle nad yw'r ddyletswydd neu'r egwyddor dan sylw yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiad, neu lle gall ffactorau tu hwnt i reolaeth osteopathiaid effeithio ar eu gallu i gydymffurfio â'r arweiniad neu'r modd y byddant yn cydymffurfio â'r arweiniad.
- Defnyddir **'gallai/gallech'** yn yr arweiniad i ddynodi bod gan osteopathiaid ddewis o ran cymryd camau penodol neu beidio.

A. Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf

Mae'r thema hon yn gosod y safonau sy'n ymwneud â chyfathrebu, ffurfio partneriaeth effeithiol â chleifion, a chydysniad. Dylai cleifion fod yn ganolog i ofal iechyd a dylech roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus am y gofal y maent yn ei gael. Mae'r safonau hyn yn cefnogi perthynas therapiwtig â'r claf wedi'i hadeiladu ar gyfathrebu da, ymddiriedaeth a hyder.

Safonau

A1

Rhaid i chi wrando ar gleifion a pharchu eu hunigoliaeth, eu pryderon a'u dymuniadau. Rhaid i chi fod yn gwrtais ac yn ystyriol o gleifion a'u trin ag urddas â chwarteisi.

A2

Rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â chleifion, gan addasu eich dull o gyfathrebu i ystyried eu hanghenion penodol ac i gynorthwyo cleifion i ddweud wrthyhych beth sy'n bwysig iddynt.

A3

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y maent ei heisiau neu ei hangen i gleifion mewn modd dealladwy.

A4

Rhaid i chi gael cydysniad dilys cyn cyflawni unrhyw agwedd ar archwiliad a thriniaeth a'i gofnodi fel y bo'n briodol.

A5

Rhaid i chi gynorthwyo cleifion i ofalu amdanynt eu hunain er mwyn iddynt wella a chynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain.

A6

Rhaid i chi barchu urddas a swildod eich cleifion.

A7

Rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw eich credoau a'ch gwerthoedd yn niweidio gofal eich cleifion.

A1

Rhaid i chi wrando ar gleifion a pharchu eu hunigoliaeth, eu pryderon a'u dymuniadau. Rhaid i chi fod yn gwrtais ac yn ystyriol o gleifion a'u trin ag urddas â chwarteisi.

1. Cyfathrebu gwael sydd wrth wraidd y rhan fwyaf o gwynion gan gleifion. Mae cyfathrebu effeithiol yn broses ddwy ffordd, sy'n galw am wrando'n ofalus yn ogystal â siarad.
2. Dylech sylwi'n fanwl ar arwyddion dieiriau'r claf; er enghraifft, pan fydd iaith corff neu dôn llais y claf yn awgrymu eu bod yn nerfus, yn anghyfforddus, yn bryderus neu'n fregus.
3. Bydd y cleifion sy'n dod atoch wedi cael profiadau gwahanol a bydd ganddynt ddisgwyliadau gwahanol. Dylech geisio bodloni eu dymuniadau cymaint ag y gallwch heb amharu ar y gofal y gallwch ei ddarparu. Os na allwch fodloni eu dymuniadau, dylech egluro pam na allwch wneud hynny.
4. Byddwch yn ymwybodol hefyd y bydd gan gleifion anghenion neu werthoedd penodol yn ymwneud â rhywedd, ethnigrwydd, diwylliant, crefydd, cred, cyfeiriadedd rhywiol, ffordd o fyw, oedran, statws cymdeithasol, iaith, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac anabledd. Rhaid i chi allu ymateb yn barchus ac yn briodol i'r anghenion hyn.
5. Dylech roi eich sylw llawn i'ch cleifion a dylech neilltuo digon o amser i ymdrin â'u hanghenion yn briodol. Os ydych yn rhedeg practis ar eich pen eich hun, dylech geisio sicrhau na fydd eraill yn tarfu arnoch pan fydd claf gyda chi.

A2

Rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â chleifion, gan addasu eich dull o gyfathrebu i ystyried eu hanghenion penodol ac i gynorthwyo cleifion i ddweud wrthyhych beth sy'n bwysig iddynt.

1. Mae ymddiriedaeth yn rhan hanfodol o berthynas glinigol ac mae'n galw am gyfathrebu effeithiol rhwng yr osteopath a'r claf.
2. Rhaid i chi ofalu am eich cleifion a gwneud eich gorau i ddeall eu symptomau a chynnal eu hiechyd.
3. Dylech fod yn sensitif i anghenion penodol cleifion a gallu dewis a defnyddio dulliau effeithiol o gyfathrebu sy'n ystyried yr anghenion hyn.
4. Dylech rannu gwybodaeth gywir a pherthnasol gyda chleifion, a'u hannog i ofyn cwestiynau a chymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal.
5. Weithiau, bydd y driniaeth fwyaf priodol i gleifion yn galw am wneud y canlynol:
 - 5.1 eu cyfeirio at osteopath arall neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall
 - 5.2 rhoi cyngor ar hunanofal
 - 5.3 peidio â'u trin o gwbl.

A3

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y maent ei heisiau neu ei hangen i gleifion mewn modd dealladwy.

1. Cyn archwilio neu drin cleifion, dylech sicrhau eu bod yn deall:
 - 1.1 eu hawliau fel cleifion, yn cynnwys eu hawl i gael cwmni yn yr ystafell a'u hawl i roi'r gorau i'r archwiliad neu'r driniaeth ar unrhyw adeg
 - 1.2 beth y gallant ei ddisgwyl yn realistig gennych fel osteopath.
2. Dylech drafod opsiynau gofal gyda chleifion, eu hannog i ofyn cwestiynau, a'u hateb yn eglur, yn llawn ac yn onest. Dylech roi gwybod i'ch cleifion am unrhyw fanteision a ragwelir yn ogystal ag unrhyw risgiau perthnasol neu sylweddol sy'n gysylltiedig â'r driniaeth a argymhellir gennych, a chadarnhau eu bod yn deall y rhain. Os ydych yn argymhell na ddylid rhoi unrhyw driniaeth, dylech egluro unrhyw risgiau a manteision posibl sy'n gysylltiedig â hynny.
3. Os ydych yn bwriadu archwilio neu drin claf sy'n cael anhawster i gyfathrebu neu ddeall, dylech ddilyn pob cam rhesymol i'w cynorthwyo. Er enghraifft, defnyddiwch gyfieithydd priodol os yw claf yn cyfathrebu mewn iaith sy'n wahanol i'ch iaith chi. Os ydych yn methu cyfathrebu'n ddigonol â chlaf, ni ddylech eu trin.

A4

Rhaid i chi gael cydsyniad dilys cyn cyflawni unrhyw agwedd ar archwiliad a thriniaeth a'i gofnodi fel y bo'n briodol.

1. Mae cael cydsyniad yn rhan hanfodol o'ch ymarfer ac mae'n ofyniad moesegol a chyfreithiol. Os ydych yn archwilio neu'n trin claf heb gydsyniad, gallech wynebu achos troseddol, achos sifil neu gael eich galw ger bron y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
2. Mae cael cydsyniad yn broses barhaus. Rhaid i chi sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau ar bob cam o'u triniaeth a'u gofal a'u bod yn parhau i roi cydsyniad.
3. Er mwyn i gydsyniad fod yn ddilys, rhaid iddo gael ei roi:
 - 3.1 yn wirfoddol
 - 3.2 gan unigolyn â'r wybodaeth briodol
 - 3.3 gyda'r gallu i gydsynio â'r ymyrraeth dan sylw.

Yn wirfoddol

4. Er mwyn i gydsyniad fod yn wirfoddol, rhaid i'r claf beidio â bod o dan unrhyw fath o bwysau neu ddylanwad gormodol i gydsynio i ofal osteopathig. Rhaid i chi sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i benderfynu a chydsynio drostynt eu hunain.
5. Gallai sefyllfaoedd lle gallech gwestiynu a yw cydsyniad yn wirfoddol ai peidio gynnwys cleifion sy'n cael eu rhoi dan bwysau gan gyflogwyr neu berthnasau i gael gofal osteopathig neu lle gallai claf fod yn agored i niwed fel arall.

Gan unigolyn â'r wybodaeth briodol

6. Mae angen i'r claf ddeall natur, diben, manteision a risgiau perthnasol neu sylweddol yr archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig. Yna, rhaid i'r claf fod yn rhydd i naill ai dderbyn neu wrthod yr archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig. Efallai y bydd rhai cleifion angen amser i ystyried yr hyn a argymhellwyd gennych cyn iddynt roi eu cydsyniad.
7. Os byddwch yn cynnal archwiliad diagnostig a thriniaeth ar yr un pryd, efallai y gallech gael cydsyniad drwy egluro eich dull o weithredu, disgrifio'r mathau o driniaethau y gallech fod eisiau eu defnyddio, gan osod y terfynau y byddwch yn gweithio o'u mewn, ac egluro sut y gallai'r claf ddynodi eu bod eisiau i chi roi'r gorau i'r driniaeth. Os yw'r claf yn cydsynio i chi fwrw rhagddi ar y sail hon, gallwch wneud hynny. Os yw'r claf yn mynegi pryder eich bod yn mynd y tu hwnt i'r cynllun triniaeth y cytunwyd arno, rhaid i chi roi'r gorau i'r driniaeth.
8. Cyn penderfynu bod cydsyniad wedi'i roi, dylech ystyried a yw cleifion wedi cael yr holl wybodaeth sydd ei heisiau neu ei hangen arnynt, a pha mor dda y maent yn deall manylion a goblygiadau'r hyn a argymhellir.
9. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod eich claf yn deall ac yn cydsynio i archwiliad neu driniaeth arfaethedig i unrhyw ran breifat o'r corff cyn i chi wneud hynny. Mae rhannau preifat o'r corff yn cynnwys yr afl, y pwbis, y perinöwm, y bronnoau a'r anws, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn gan y gallai cleifion ystyried rhannau eraill o'r corff yn 'rhannau preifat' hefyd. Efallai y bydd rhai cleifion heb baratoi ar gyfer archwiliad neu driniaeth o'r fath a dylech gynnig gwneud hynny mewn apwyntiad arall, a chynnig eu bod yn dod â chwmni gyda nhw.

Gallu

10. Yn y cyd-destun hwn, mae gallu yn ymwneud â gallu unigolyn i ddeall, cofio a gwerthuso gwybodaeth ac i wneud a chyfathrebu penderfyniad ynglŷn â'u hanghenion iechyd a'u hopsiynau triniaeth.
11. Rhaid i chi beidio â rhagdybio nad oes gan y claf allu meddyliol ar sail eu hoedran, anabledd, ymddangosiad, ymddygiad, cyflwr meddwl, credoau, neu oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniad nad ydych chi'n cytuno ag ef. Dylech ragdybio bod gallu meddyliol gan y claf fel man cychwyn bob amser.
12. Mae'r gyfraith yn cydnabod nad yw rhai cleifion – oherwydd salwch, gallu meddyliol neu oedran – yn gymwys i roi cydsyniad i archwiliad neu driniaeth benodol. Y rheswm am hyn yw oherwydd nad ydynt o bosibl yn gallu deall neu bwyso a mesur y wybodaeth a gwneud penderfyniad gwybodus.
13. Pan nad oes gan oedolyn ddigon o allu meddyliol, rhaid gwneud y penderfyniadau gorau er eu lles ynglŷn â'u triniaeth ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae manylion pellach ar y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i'w gweld yn nogfennau canllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar gyfer pob awdurdodaeth, *Obtaining Consent*.

Trin plant a phobl ifanc

Noder bod 'plentyn' yn y crynodeb isod yn golygu unigolyn o dan 16 oed a 'pherson ifanc' yn golygu unigolyn 16 neu 17 oed.

14. Mae cael cydsyniad ar gyfer trin plentyn neu berson ifanc yn fater cymhleth. Os ydych yn trin plant, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r gyfraith yn y mater hwn, a gallai amrywio yn dibynnu ar ble rydych chi'n gweithio yn y DU. Rhoddir manylion pellach yn nogfen ganllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, Obtaining Consent.
15. Mae'n bosibl y bydd gan blentyn allu i gydsynio. Bydd angen i chi gymhwyso'r gyfraith, a defnyddio eich crebwyll proffesiynol i asesu gallu pob claf o dan 16 oed, a bydd hynny'n dibynnu ar eu haeddfedrwydd a'u gallu i ddeall beth sy'n digwydd. Fe'ch cynghorir yn gryf i gynnwys unigolyn sydd â chyfrifoldeb riant am y plentyn wrth ofyn am gydsyniad.
16. Dylech gynnwys plant a phobl ifanc cymaint ag y bo modd mewn trafodaethau ynglŷn â'u gofal hyd yn oed os nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain.
17. Gellir trin person ifanc fel oedolyn a rhagdybio eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal eu hunain. Er hynny, bydd angen i chi ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i asesu a oes gan y person ifanc ddigon o aeddfedrwydd a gallu mewn gwirionedd i ddeall beth mae'r driniaeth arfaethedig yn ei olygu iddynt oherwydd, fel gydag oedolion, rhaid i gydsyniad fod yn ddilys.

Cofnodion cydsyniad

18. Rhaid i chi gofnodi elfennau allweddol o'ch trafodaeth gyda'r claf. Dylai hyn gynnwys y wybodaeth a drafodwyd, unrhyw bryderon penodol, disgwyliadau neu geisiadau am wybodaeth gan y claf, sut yr ateboch chi'r rhain, ac unrhyw benderfyniadau a wnaed. Mae'n bwysig i chi allu dangos tystiolaeth o'r materion hyn yng nghofnodion cleifion.
19. Nid yw dilysrwydd y cydsyniad yn dibynnu ar y dull o roi cydsyniad. Gall cydsyniad ysgrifenedig fod yn dystiolaeth o gydsyniad, ond os nad yw elfennau gwirfoddolrwydd, gwybodaeth briodol a gallu i wneud penderfyniadau wedi'u bodloni, ni fydd llofnod ar ffurflen ynddo'i hun yn dilysu'r cydsyniad.
20. Nid oes yn rhaid i gydsyniad dilys gael ei roi gan y claf yn ysgrifenedig bob amser. Fodd bynnag, os ydych yn argymhell cynnal archwiliad o'r wain neu'r rectwm, neu dechneg sy'n ymwneud â'r rhannau hynny o'r corff, rhaid i chi gael cydsyniad ysgrifenedig a'i gadw gyda chofnodion y claf. Gallech ystyried cael cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer triniaethau eraill hefyd, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â rhannau o'r corff y mae'r claf yn eu hystyried yn breifat.

Rhannu gwybodaeth

21. Rhaid i chi gael cydsyniad penodol gan gleifion ynglŷn â rhannu unrhyw wybodaeth amdanynt gydag eraill.

A5

Rhaid i chi gynorthwyo cleifion i ofalu amdanynt eu hunain er mwyn iddynt wella a chynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain.

1. Gallai cynorthwyo cleifion i ofalu amdanynt eu hunain gynnwys:
 - 1.1 darparu gwybodaeth ar effeithiau eu dewisiadau bywyd a'u ffordd o fyw ar eu hiechyd a'u lles
 - 1.2 cynorthwyo'r claf i wneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau i'w ffordd o fyw lle bo'n briodol
 - 1.3 annog a chynorthwyo cleifion i ofyn am gymorth gan eraill, yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol eraill neu rai sy'n cydlynu eu gofal, os oes angen
 - 1.4 parchu penderfyniadau cleifion ynglŷn â'u gofal, hyd yn oed os ydych yn anghytuno â'r penderfyniadau hynny.

A6

A6 Rhaid i chi barchu urddas a swildod eich cleifion.

1. Bydd gan gleifion ofynion gwahanol er mwyn cadw eu hurddas yn ystod ymgynghoriad, a rhaid i chi fod yn sensitif i'r rhain. Efallai y bydd rhai o'r syniadau hyn wedi'u llywio gan gefndir crefyddol neu ddiwylliannol y claf, ond mae'n annoeth rhagdybio unrhyw beth ynglŷn â syniadau'r claf ynghylch urddas.
2. Dylech barchu urddas a swildod y claf drwy:
 - 2.1 egluro i gleifion cyn eu hapwyntiad cyntaf y gallai fod gofyn iddynt ddadwisgo ar gyfer cael archwiliad neu driniaeth
 - 2.2 caniatáu i glaf ddadwisgo a gwisgo heb neb yn eu gwyllo
 - 2.3 peidio â gwyllo claf yn dadwisgo heblaw eich bod yn ystyried hynny'n angenrheidiol at ddibenion diagnosis neu driniaeth – rhaid egluro hyn i'r claf a chael eu cydsyniad; os nad yw'r claf yn dymuno i chi eu gwyllo, rhaid i chi barchu eu dymuniadau a dod o hyd i ffordd arall o gael y wybodaeth glinigol sydd ei hangen arnoch
 - 2.4 rhoi'r opsiwn i gleifion y gallant orchuddio rhannau o'u corff nad oes angen iddynt gael eu datgelu ar gyfer archwiliad neu driniaeth. Gellir gwneud hyn drwy roi gorchudd neu wn priodol i'r claf a gofyn iddynt dynnu'r eitemau o ddillad y bydd angen eu tynnu ar gyfer yr archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig yn unig, neu roi cyfle iddynt wisgo'u dillad i gyd eto, neu rai eitemau o'u dillad fel sy'n briodol. Os teimlwch fod angen i'r claf ddadwisgo i'w dillad isaf at ddibenion yr archwiliad neu'r driniaeth, dylech egluro hyn i'r claf a gofyn am eu cydsyniad.
3. Os oes angen symud neu dynnu eitemau o ddillad neu ddillad isaf y claf yn ystod yr archwiliad neu'r driniaeth, dylech ofyn iddynt wneud hyn eu hunain. Os oes angen i chi eu cynorthwyo, rhaid i chi gael eu cydsyniad i wneud hynny.
4. Os ydych angen i'ch claf dynnu dillad isaf ar gyfer archwiliad neu driniaeth, dylech ofyn iddynt wisgo eu dillad isaf ar ddiwedd yr archwiliad neu'r driniaeth benodol honno cyn parhau gydag unrhyw driniaeth arall.

5. Rhaid i chi bob amser ofyn i glaf a fyddai'n hoffi cael cwmni yn yr ystafell:
 - 5.1 pan fyddwch yn archwilio neu'n trin rhan breifat o'r corff
 - 5.2 pan fyddwch yn trin claf o dan 16 oed
 - 5.3 pan fyddwch yn trin oedolyn heb allu meddyliol digonol
 - 5.4 pan fyddwch yn trin claf yn eu cartref.
6. Gall cwmni olygu:
 - 6.1 perthynas neu ffrind i'r claf
 - 6.2 rhywun addas o'ch practis, ar wahân i'ch gŵr/gwraig neu gymar personol.
7. Os yw'r claf yn dymuno cael cwmni, ond nad ydych chi na'r claf yn gallu darparu cwmni, dylech gynnig aildrefnu'r apwyntiad.
8. Os oes cwmni'n bresennol, dylech nodi hynny yng nghofnodion y claf. Os yw claf yn un o'r categorïau ym mharagraff A6(5) yn gwrthod eich cynnig i gael cwmni, dylech nodi hynny yn nodiadau'r claf.

A7

Rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw eich credoau a'ch gwerthoedd yn niweidio gofal eich cleifion.

1. Dylid darparu gwasanaeth a gofal o'r un ansawdd i bob claf. Mae'n anghyfreithlon i wrthod rhoi gwasanaeth i rywun ar sail eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.
2. Dylech ymddwyn yn broffesiynol bob amser, hyd yn oed os ceir anghymarusrwydd personol rhyngoch chi a'r claf.
3. Nid oes gorfodaeth arnoch i dderbyn unrhyw unigolyn fel claf (yn amodol ar y pwyntiau a nodwyd ym mharagraff 1 uchod), ond os ydych chi'n derbyn rhywun ac yn teimlo na allwch chi barhau i roi gofal o'r safon y mae ganddynt hawl iddo, gallwch wrthod parhau i'w trin. Os felly, dylech geisio eu cyfeirio at osteopath neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall lle bo'n briodol. Dyma rai rhesymau dros wrthod derbyn claf neu beidio â pharhau â'u gofal:
 - 3.1 os ydynt yn ymosodol neu'n troi felly
 - 3.2 os yw'n ymddangos eu bod wedi colli hyder yn y gofal rydych yn ei roi iddynt
 - 3.3 os yw'n ymddangos eu bod wedi dod yn amhriodol o ddibynnol arnoch chi.

B. Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

Rhaid i bob osteopath feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi eu hymarfer fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a rhaid iddynt gynnal a datblygu'r rhain drwy gydol eu gyrfaedd. Rhaid iddynt bob amser weithio o fewn terfynau eu sgiliau a'u profiad. Mae'r safonau yn y thema hon yn nodi'r gofynion ar gyfer gwneud hyn.

Safonau

B1

Rhaid i chi feddu ar wybodaeth a sgiliau digonol a phriodol, a gallu eu cymhwyso, i gefnogi eich gwaith fel osteopath.

B2

Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich hyfforddiant a'ch cymhwysedd.

B3

Rhaid i chi sicrhau bod gennych y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf.

B4

Rhaid i chi allu dadansoddi a myfyrio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'ch ymarfer er mwyn gwella gofal eich cleifion.

B1

Rhaid i chi feddu ar wybodaeth a sgiliau digonol a phriodol, a gallu eu cymhwyso, i gefnogi eich gwaith fel osteopath.

1. Dylai'r rhain gynnwys:
 - 1.1 dealltwriaeth o athroniaeth, egwyddorion a chysyniadau osteopathig ynghylch iechyd, salwch a chlefydau a'r gallu i gymhwyso'r wybodaeth hon yn feirniadol, wrth ofalu am gleifion
 - 1.2 gwybodaeth am adeiladwaith a gweithrediad y corff sy'n ddigonol i lywio gofal priodol
 - 1.3 digon o wybodaeth am brosesau pathoffisiolegol i ffurfio barn glinigol ac i allu nodi ble y gallai fod angen archwiliad neu driniaeth ychwanegol neu wahanol ar gleifion gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall
 - 1.4 dealltwriaeth o'r dylanwadau seicolegol a chymdeithasol ar iechyd, sy'n ddigonol i lywio penderfyniadau clinigol a gofal cleifion
 - 1.5 ymwybyddiaeth o egwyddorion a chymhwysiad ymholiadau gwyddonol a'r gallu i werthuso gwybodaeth a data gwyddonol yn feirniadol er mwyn llywio gofal osteopathig
 - 1.6 dealltwriaeth o egwyddorion biomecaneg sy'n ddigonol i ddarparu triniaeth osteopathig yn ddiogel ac yn effeithiol
 - 1.7 sgiliau cyffwrdd tra datblygedig
 - 1.8 dealltwriaeth o nodweddion gweithrediad normal ac annormal gwahanol feinweoedd a systemau'r corff i lywio dealltwriaeth a dehongliad o ganfyddiadau clinigol
 - 1.9 gallu i bennu newidiadau mewn iechyd a gweithrediad drwy ddefnydd priodol o arsylwi, cyffwrdd, symud a gwerthuso clinigol
 - 1.10 sgiliau meddwl a datrys problemau er mwyn llywio ac arwain y broses o ddehongli data clinigol a data arall, ac i gyfiawnhau rhesymau a phenderfyniadau clinigol
 - 1.11 gallu i amddiffyn eich hun yn gorfforol ac yn seicolegol wrth ymwneud â chleifion er mwyn cynnal eich iechyd eich hun
 - 1.12 gallu i arfarnu eich ymarfer osteopathig eich hun yn feirniadol. Er enghraifft, gellid cyflawni hyn drwy:
 - 1.12.1 hunanfyfyrion
 - 1.12.2 adborth gan gleifion
 - 1.12.3 adborth gan gydweithwyr
 - 1.12.4 dadansoddiad o achosion neu archwiliad clinigol.

B2

Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich hyfforddiant a'ch cymhwysedd.

1. Dylech ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i asesu a oes gennych hyfforddiant, sgiliau a chymhwysedd i drin claf, gan ofyn am gyngor lle bo angen.
2. Os nad oes, dylech ystyried:
 - 2.1 gofyn am gyngor neu gymorth gan ffynhonnell briodol i'ch cynorthwyo i ofalu am y claf
 - 2.2 gweithio gydag osteopathiaid a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i sicrhau'r gofal mwyaf priodol ar gyfer eich claf
 - 2.3 cyfeirio'r claf at osteopath neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall sydd â chymwysterau priodol.
3. Mae gweithio o fewn eich cymhwysedd hefyd yn berthnasol os ydych yn gweithio ym meysydd addysg ac ymchwil.

B3

Rhaid i chi sicrhau bod gennych y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf.

1. I gyflawni hyn:
 - 1.1 dylech fod wedi ymrwymo'n broffesiynol, gan gyflawni gweithgareddau datblygu proffesiynol a chydymffurfio â gofynion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol parhaus
 - 1.2 dylech sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r ffactorau diweddaraf sy'n berthnasol i'ch ymarfer, yn cynnwys:
 - 1.2.1 canllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol
 - 1.2.2 gofynion cyfreithiol neu newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â'ch ymarfer, er enghraifft, mewn perthynas â storio data (gweler safon C3), iechyd a diogelwch yn y gweithle (gweler safon C5) a materion cydraddoldeb (gweler safon D6)
 - 1.2.3 ymchwil a datblygiadau perthnasol eraill ym maes gofal iechyd.

B4

Rhaid i chi allu dadansoddi a myfyrio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'ch ymarfer er mwyn gwella gofal eich cleifion.

1. I gyflawni hyn, bydd angen i chi gael digon o wybodaeth a gallu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â'ch ymarfer i gefnogi gofal eich cleifion a'ch datblygiad proffesiynol eich hun.

C. Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer

Rhaid i ostoepathiaid ddarparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel i gleifion. Mae'r thema hon yn nodi'r safonau mewn perthynas â darparu gofal, gan gynnwys dulliau gwerthuso a rheoli, cadw cofnodion, amddiffyn cleifion, ac iechyd y cyhoedd.

Safonau

C1

Rhaid i chi allu gwerthuso cleifion yn osteopathig a darparu gofal osteopathig diogel, cymwys a phriodol i'ch cleifion.

C2

Rhaid i chi sicrhau bod eich cofnodion cleifion yn gynhwysfawr, yn gywir, yn ddarllenadwy ac wedi'u cwblhau'n brydlon.

C3

Rhaid i chi ymateb yn effeithiol ac yn briodol i geisiadau am ddeunydd a data ysgrifenedig.

C4

Rhaid i chi roi camau ar waith i gadw cleifion rhag niwed.

C5

Rhaid i chi sicrhau bod eich ymarfer yn ddiogel, yn lân ac yn lanwaith, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

C6

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch rôl ehangach fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i gyfrannu at wella iechyd a lles eich cleifion.

C1

Rhaid i chi allu gwerthuso cleifion yn osteopathig a darparu gofal osteopathig diogel, cymwys a phriodol i'ch cleifion.

1. Dylai hyn gynnwys y gallu i:
 - 1.1 gofnodi hanes achos y claf, gan addasu eich dull o gyfathrebu i ystyried anghenion a hydeimledd y claf unigol
 - 1.2 dewis a chynnal asesiad clinigol priodol o'ch claf, gan ystyried natur eu cwyn a hanes eu hachos
 - 1.3 ffurfio diagnosis gweithredol neu sail resymegol dros ofal ac egluro hyn yn glir i'r claf
 - 1.4 datblygu a chymhwyso cynllun triniaeth a gofal priodol. Dylid seilio hwn ar:
 - 1.4.1 y diagnosis gweithredol
 - 1.4.2 y dystiolaeth orau sydd ar gael
 - 1.4.3 gwerthoedd a dymuniadau'r claf
 - 1.4.4 eich sgiliau, eich profiad a'ch cymhwysedd eich hun
 - 1.5 addasu techneg neu driniaeth osteopathig mewn ymateb i gasgliadau'r archwiliad o'ch claf
 - 1.6 gwerthuso ymateb ôl-driniaeth a chyfiawnhau'r penderfyniad i barhau, addasu neu derfynu triniaeth osteopathig fel y bo'n briodol
 - 1.7 adnabod adwaith anffafriol i driniaeth, a rhoi camau priodol ar waith
 - 1.8 monitro effeithiau eich gofal, a chadw hyn dan arolwg; dylech derfynu gofal os yw'r claf yn gofyn i chi wneud hynny neu os ydych yn barnu bod gofal yn debygol o fod yn aneffeithiol neu heb fod er lles gorau'r claf
 - 1.9 cydnabod unrhyw gamgymeriadau a wnaed, a rhoi camau priodol ar waith i'w hunioni, gan ystyried lles gorau'r claf o dan eich dyletswydd gonestrwydd (gweler safon D3)
 - 1.10 lle bo'n briodol, cyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, gan ddilyn gweithdrefnau atgyfeirio priodol.
2. Os ydych yn darparu gofal y tu allan i amgylchedd eich practis arferol, dylech nodi yn eich cofnodion ble y digwyddodd hyn, a chymhwyso'r un safonau ag y byddech yn eu cymhwyso yn eich practis arferol, neu allu cyfiawnhau pam nad oedd hynny'n briodol.

C2

Rhaid i chi sicrhau bod eich cofnodion cleifion yn gynhwysfawr, yn gywir, yn ddarllenadwy ac wedi'u cwblhau'n brydlon.

1. Mae cofnodion yn eich helpu i ddarparu gofal o ansawdd da i'ch cleifion a dylent gynnwys:
 - 1.1 dyddiad yr ymgynghoriad
 - 1.2 manylion personol y claf
 - 1.3 unrhyw broblemau, symptomau, pryderon a blaenoriaethau rydych yn eu trafod gyda'ch claf
 - 1.4 hanes meddygol, teuluol a chymdeithasol perthnasol
 - 1.5 eich casgliadau clinigol
 - 1.6 y wybodaeth a'r cyngor rydych yn eu darparu, gan gynnwys cofnod o sut y caiff hyn ei gyfathrebu i'ch claf

- 1.7 diagnosis gweithredol a chynllun triniaeth
 - 1.8 cofnodion cydsyniad
 - 1.9 unrhyw driniaeth a gyflawnwch
 - 1.10 unrhyw ohebiaeth â'r claf, ynglŷn â'r claf neu gan y claf
 - 1.11 copïau o unrhyw ohebiaeth, adroddiadau, canlyniadau profion ac ati sy'n ymwneud â'r claf
 - 1.12 ymateb clinigol i driniaeth a chanlyniadau triniaeth
 - 1.13 lleoliad eich ymweliad os yw y tu allan i'ch ystafelloedd ymgynghori arferol
 - 1.14 a oedd unrhyw un arall yn bresennol a'u statws
 - 1.15 os oes arsylwr yn bresennol (er enghraifft, cwmni, arsylwr cymheiriaid, myfyriwr osteopathig, neu ddarpar fyfyrwr) yn ogystal â'u statws a'u henwau, dylech gofnodi cydsyniad y claf i'w presenoldeb.
2. Dylech wneud nodiadau ar y pryd neu eu cwblhau'n fuan ar ôl ymgynghoriad (ar yr un diwrnod fel arfer).
 3. Dylai'r wybodaeth a roddwch mewn adroddiadau ac ar ffurflenni neu at unrhyw ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â'ch ymarfer fod yn onest, yn gywir ac yn gyflawn.

C3

Rhaid i chi ymateb yn effeithiol ac yn briodol i geisiadau am ddeunydd a data ysgrifenedig.

1. I gyflawni hyn bydd angen i chi:
 - 1.1 gynhyrchu adroddiadau ac atgyfeiriadau, a chyflwyno gwybodaeth mewn fformat priodol i gefnogi gofal cleifion a rheoli ymarfer yn effeithiol
 - 1.2 datblygu systemau ar gyfer storio ac adalw gwybodaeth cleifion, gan gynnwys data ariannol a data arall am y practis er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol mewn perthynas â chyfrinachedd, prosesu a storio data, a cheisiadau am wybodaeth gan gleifion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu bartion eraill a awdurdodwyd i'w gweld.

C4

Rhaid i chi roi camau ar waith i gadw cleifion rhag niwed.

1. Rhaid i chi gydymffurfio â'r gyfraith sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed.
2. Dylech fod yn ymwybodol o weithdrefnau amddiffyn cyfredol, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i'ch ardal leol, a sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a'ch bod yn dilyn y gweithdrefnau hyn os ydych yn amau bod risg i blentyn neu oedolyn agored i niwed.
3. Dylech roi camau ar waith i ddiogelu cleifion os ydych yn credu bod iechyd, ymddygiad neu berfformiad proffesiynol cydweithiwr neu ymarferydd gofal iechyd arall yn creu risg i gleifion. Dylech ystyried un o'r llwybrau gweithredu canlynol, gan gofio mai eich amcan yw diogelu'r claf:

- 3.1 trafod eich pryderon gyda'r cydweithiwr neu'r ymarferydd
 - 3.2 rhannu eich pryderon â chydweithwyr eraill neu â phennaeth y practis os oes un, neu â chyflogwr,
 - 3.3 os yw'r ymarferydd yn perthyn i broffesiwn a reoleiddir, rhoi gwybod i'w corff rheoleiddio am eich pryderon
 - 3.4 os yw'r ymarferydd ar gofrestr wirfoddol, rhoi gwybod i'r sefydliad hwnnw am eich pryderon
 - 3.5 os oes gennych bryderon uniongyrchol a difrifol ynglŷn â chlaf, rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am eich cydweithiwr.
4. Mewn unrhyw amgylchiad, os credwch fod claf mewn perygl uniongyrchol a difrifol o niwed, dylech ystyried y llwybr gweithredu gorau, a allai olygu cysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol (ond gweler safon D5 ynglŷn â chyfrinachedd).
 5. Os ydych yn bennaeth practis, dylech sicrhau bod systemau ar waith er mwyn i staff allu mynegi pryderon ynghylch risgiau i gleifion.
 6. Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw ofynion adrodd gorfodol, er enghraifft, rhai sy'n ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod yng Nghymru a Lloegr.

C5

Rhaid i chi sicrhau bod eich ymarfer yn ddiogel, yn lân ac yn lanwaith, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

1. Rhaid i safle eich practis fod yn lân, yn ddiogel, yn lanwaith, yn gyffyrddus ac wedi'i gyfarparu'n briodol.
2. Ceir gofynion manwl yn y gyfraith ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae manylion pellach i'w gweld ar wefan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y DU.
3. Rhaid bod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.
4. Dylech sicrhau bod gennych weithdrefnau priodol ar waith ar gyfer unrhyw argyfwng meddygol.
5. Dylech roi'r holl gamau angenrheidiol ar waith i reoli lledaeniad clefydau trosglwyddadwy.

C6

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch rôl ehangach fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i gyfrannu at wella iechyd a lles eich cleifion.

1. Dylech fod yn ymwybodol o faterion a phryderon iechyd y cyhoedd, a gallu trafod y rhain mewn modd cytbwys gyda chleifion, neu eu cyfeirio at adnoddau neu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gefnogi eu prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch y rhain.

D. Proffesiynoldeb

Rhaid i osteopathiaid weithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb a chynnal safonau uchel o ymddygiad proffesiynol a phersonol er mwyn sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae'r safonau yn y thema hon yn ymdrin â materion ac ymddygiad o'r fath, gan gynnwys sefydlu terfynau proffesiynol clir gyda chleifion, dyletswydd gonestrwydd, a rheoli gwybodaeth cleifion yn gyfrinachol. Mae'r rhain yn cyfrannu at sicrhau bod ymddiriedaeth yn cael ei sefydlu a'i gynnal o fewn y berthynas therapiwtig.

Safonau

D1	Rhaid i chi weithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb yn eich ymarfer proffesiynol.	D7	Rhaid i chi gynnal enw da'r proffesiwn bob amser drwy eich ymddygiad, yn y gweithle a thu allan i'r gweithle.
D2	Rhaid i chi sefydlu a chynnal terfynau proffesiynol clir gyda chleifion, a rhaid i chi beidio â chamddefnyddio eich statws proffesiynol a'ch swydd gyfrifol fel osteopath.	D8	Rhaid i chi fod yn onest a dibynadwy yn eich trafodion ariannol, boed broffesiynol neu bersonol.
D3	Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda'ch cleifion, gan gyflawni eich dyletswydd gonestrwydd.	D9	Rhaid i chi gefnogi cydweithwyr a chydweithio â nhw er mwyn gwella gofal i gleifion.
D4	Rhaid i chi gael polisi ar waith ar gyfer rheoli cwynion gan gleifion, ac ar gyfer ymateb yn gyflym ac yn briodol i unrhyw gwynion a wneir.	D10	Rhaid i chi ystyried cyfraniadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill er mwyn sicrhau'r gofal gorau i gleifion.
D5	Rhaid i chi barchu hawliau eich cleifion i breifatrwydd a chyfrinachedd, a chynnal a diogelu gwybodaeth cleifion yn effeithiol.	D11	Rhaid i chi sicrhau nad yw unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar eich asesiad eich hun o'r risg i gleifion.
D6	Rhaid i chi drin cleifion yn deg a chydabod amrywiaeth a gwerthoedd unigolion. Rhaid i chi gydymffurfio â deddfau cydraddoldeb a gwrthwahaniaethol.	D12	Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ynghlŷn ag unrhyw wybodaeth arwyddocaol ynghylch eich ymddygiad a'ch cymhwysedd, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad neu geisiadau am wybodaeth a chydymffurfio â phob gofyniad rheoleiddiol.

D1

Rhaid i chi weithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb yn eich ymarfer proffesiynol.

1. Gall diffyg uniondeb yn eich ymarfer niweidio gofal i gleifion. Dyma rai enghreifftiau:
 - 1.1 rhoi eich lles eich hun uwchlaw eich dyletswydd i'ch claf
 - 1.2 rhoi archwiliad neu driniaeth ddiangen neu ddi-fudd i'ch claf
 - 1.3 atal archwiliad, triniaeth neu atgyfeiriad angenrheidiol yn fwriadol
 - 1.4 parhau â thriniaeth am gyfnod hwy na'r angen
 - 1.5 rhoi pwysau ar glaf i gael cyngor proffesiynol arall neu brynu cynnyrch
 - 1.6 argymhell gwasanaeth proffesiynol neu gynnyrch yn unswydd er mwyn gwneud elw ariannol
 - 1.7 benthyca arian gan gleifion neu dderbyn unrhyw fuddiant arall sy'n peri i chi elwa'n ariannol.
2. Ni ddylech ganiatáu hysbysebu neu wybodaeth gamarweiniol amdanoch chi a'ch ymarfer. Dylech sicrhau'r canlynol:
 - 2.1 Bod eich deunydd hysbysebu a hyrwyddo, yn ogystal â chynnwys gwefannau, yn gyfreithlon, yn weddus, yn onest ac yn wir yn unol â diffiniad yr awdurdod safonau hysbysebu (ASA) ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol, fel Cod y DU ar Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Nas Darlledir (Cod CAP).
 - 2.2 Bod y wybodaeth a ddarparwch am eich cymwysterau proffesiynol, trefniadau ymarfer a'r gwasanaethau a ddarperir gennych o safon uchel ac yn ffeithiol gywir.
 - 2.3 Nad ydych yn defnyddio unrhyw deitl sy'n awgrymu eich bod yn ymarferydd meddygol trwyddedig os nad ydych yn ymarferydd o'r fath; os ydych yn defnyddio'r teitl 'doctor' os oes gennych radd PhD, doethuriaeth arall neu am eich bod wedi cymhwyso fel meddyg meddygol ond nad oes gennych drwydded i ymarfer, dylech wneud hyn yn glir i'ch cleifion ac i eraill.
 - 2.4 Nad ydych yn creu cyhoeddusrwydd mor aml neu mewn modd sy'n peri niwsans neu sy'n rhoi'r bobl y caiff ei gyfeirio tuag atynt dan bwysau i ymateb.
3. Rhaid bod gennych drefniant yswiriant indemniad proffesiynol sy'n darparu yswiriant priodol yn unol â gofynion Deddf Osteopathiaid 1993 a'r Rheolau Yswiriant Indemniad Proffesiynol cyfredol.

D2

Rhaid i chi sefydlu a chynnal terfynau proffesiynol clir gyda chleifion, a rhaid i chi beidio â chamddefnyddio eich statws proffesiynol a'ch swydd gyfrifol fel osteopath.

1. Gall camddefnyddio eich statws proffesiynol ddigwydd mewn sawl ffordd. Mae'n debyg mai'r enghraifft fwyaf difrifol o gamddefnydd o'r fath yw methiant i sefydlu a chynnal terfynau priodol, boed yn rhywiol neu fel arall.

2. Mae terfynau proffesiynol priodol yn hanfodol ar gyfer cynnal ymddiriedaeth a pherthynas therapiwtig effeithiol rhwng yr osteopath a'r claf. Gall terfynau proffesiynol gynnwys terfynau corfforol, terfynau emosiynol a therfynau rhywiol. Gallai methiant i sefydlu a chynnal terfynau rhywiol, yn enwedig, effeithio'n niweidiol iawn ar y claf, dwyn anfri ar y proffesiwn, a gallai arwain at dynnu eich enw oddi ar Gofrestr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
3. Ni fydd pob achos o groesi terfynau proffesiynol yn gyfystyr â chamdddefnyddio eich statws proffesiynol o reidrwydd. Er enghraifft, weithiau gallai cynnal empathi ac ymddiriedaeth alw am ddatgelu gwybodaeth bersonol neu drin claf fel achos argyfwng y tu allan i'ch oriau arferol. Fodd bynnag, mae yna sbectrwm, a rhaid i osteopathiaid sicrhau bod cleifion a allai fod yn agored i niwed yn cael eu diogelu ar y pryd a thrwy gydol y berthynas broffesiynol.
4. Dylech fod yn ymwybodol o'r peryglon i gleifion ac i chi'ch hun o ddatblygu neu gymryd rhan mewn perthynas gymdeithasol neu fasnachol â chleifion, a'r heriau y gallai hyn eu hachosi i'r berthynas therapiwtig ac i ddisgwyliadau'r claf a'r gweithiwr proffesiynol. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r risg y bydd cleifion yn mynd i ddibynnu'n amhriodol arnoch chi, a gallu rheoli'r sefyllfaoedd hyn yn briodol, gan ofyn am gyngor gan gydweithiwr neu gorff proffesiynol yn ôl yr angen.
5. Wrth sefydlu a chynnal terfynau rhywiol, dylech ystyried y canlynol:
 - 5.1 Gall geiriau ac ymddygiad, yn ogystal â gweithredoedd mwy amlwg ac agored, gael eu cymryd fel rhai rhywiol, neu eu hystyried felly gan y claf. Er enghraifft:
 - 5.1.1 rhannu manylion personol amhriodol amdanoch chi eich hun
 - 5.1.2 ymweld â chartref claf heb apwyntiad
 - 5.1.3 gwneud sylwadau rhywiol amhriodol wrth gleifion neu ynghylch cleifion
 - 5.1.4 cyswllt corfforol diangen.
 - 5.2 Dylech osgoi unrhyw ymddygiad a allai gael ei ddehongli gan glaf fel gwahoddiad i berthynas neu ymateb rhywiol.
 - 5.3 Gall unrhyw gysylltiad corfforol heb gydsyniad dilys fod yn gyfystyr ag ymosodiad, gan arwain at atebolrwydd troseddol.
 - 5.4 Eich cyfrifoldeb chi yw peidio ag ymateb i atyniad rhywiol tuag at, neu gan, gleifion.
 - 5.5 Os ydych yn teimlo unrhyw atyniad rhywiol at glaf neu os yw claf yn dangos ymddygiad rhywiol tuag atoch, dylech gael cyngor ynglŷn â sut i weithredu yn y modd mwyaf priodol gan gydweithiwr, er enghraifft, neu gorff proffesiynol. Os ydych chi'n credu na allwch chi barhau i fod yn wrthrychol a phroffesiynol neu nad yw'n bosibl ailsefydlu perthynas broffesiynol, dylech atgyfeirio eich claf at ymarferydd gofal iechyd arall. Os ydych yn atgyfeirio claf oherwydd eich teimladau rhywiol eich hun tuag atynt, dylech ymdrechu i wneud hynny mewn modd nad yw'n gwneud i'r claf deimlo eu bod wedi gwneud rhywbeth o'i le.
 - 5.6 Rhaid i chi beidio â manteisio ar eich statws proffesiynol i gychwyn perthynas bersonol â chlaf. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yw'r claf o dan eich gofal chi mwyach, gan y gallai'r berthynas broffesiynol flaenorol ddylanwadu ar berthynas bersonol ac anghydbwysedd grym rhwng y ddwy ochr.

- 5.7 Rhaid i chi beidio â dod â pherthynas broffesiynol â chlaf i ben yn unswydd er mwyn mynd ar drywydd perthynas bersonol â nhw.
- 5.8 Os ydych chi'n credu y gallai perthynas bersonol ddatblygu â rhywun a fu'n glaf yn flaenorol, rhaid i chi ystyried a yw hyn yn briodol. Mae'r ffactorau a allai effeithio ar hyn yn cynnwys:
 - 5.8.1 natur y berthynas broffesiynol flaenorol
 - 5.8.2 pa mor hir y parhaodd y berthynas broffesiynol, a phryd y daeth i ben
 - 5.8.3 a oedd yr unigolyn a oedd yn glaf yn flaenorol yn arbennig o agored i niwed pan oedd y berthynas broffesiynol yn mynd rhagddi, ac a allent fod yn agored i niwed o hyd.
- 5.9 Mae'n bosibl y bydd osteopathiaid sy'n ymarfer mewn cymunedau bach yn rhoi triniaeth i ffrindiau neu deulu. Mewn achosion o'r fath, bydd sefydlu a chynnal terfynau proffesiynol clir yn eich helpu i sicrhau bod eich barn glinigol yn wrthrychol ac y gallwch ddarparu'r driniaeth sydd ei hangen ar eich cleifion. Dylid rhoi'r un lefel o ofal i bob claf, p'un a fyddwch yn eu hadnabod yn gymdeithasol neu mewn cyd-destun arall, ai peidio.

D3

Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda'ch cleifion, gan gyflawni eich dyletswydd gonestrwydd.

1. Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda gofal claf sy'n achosi, neu a allai achosi niwed neu ofid, rhaid i chi ddweud wrth y claf, cynnig esboniad ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd ac effeithiau hyn, ynghyd ag ymddiheuriad, os yn briodol, a chamau unioni neu gymorth addas.
2. Rhaid i chi hefyd fod yn agored ac yn onest gyda'ch cydweithwyr a/neu gyflogwyr lle bo'n berthnasol, a chymryd rhan mewn arolygon ac ymchwiliadau pan fo gofyn i chi wneud hynny.

D4

Rhaid i chi gael polisi ar waith ar gyfer rheoli cwynion gan gleifion, ac ar gyfer ymateb yn gyflym ac yn briodol i unrhyw gwynion a wneir.

1. Mae cwyn yn gyfle i fyfyrion ar gyfathrebu a safon y gofal a roddwyd, a gallai dynnu sylw at rannau o'ch ymarfer y gellid eu gwella. Gall cwyn sy'n cael ei thrin yn dda arwain hefyd at gryfhau'r ymddiriedaeth rhyngoch chi a'ch claf, gan arwain at wella gofal i gleifion.
2. Os yw cleifion yn lleisio pryder, a'ch bod yn gweithredu'n adeiladol, gan roi cyfle i gleifion fynegi eu hanfodlonrwydd, a darparu esboniadau sensitif ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd a pham, gallech ddatrys y broblem ar gam cynnar.
3. Dylech roi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut y gallant wneud sylwadau, a chanmol neu gwyno am y gwasanaeth a gawsant.

4. Dylech sicrhau bod eich staff yn gyfarwydd â'ch polisi cwyno ac yn gwybod at bwy y dylent gyfeirio unrhyw gŵyn gan glaf.
5. Dylech roi gwybod ar unwaith i'ch yswirwyr indemniad proffesiynol os daw cwyn i law.
6. Dylech sicrhau bod unrhyw un sy'n gwneud cwyn yn gwybod y gallant ei chyfeirio at y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a dylech ddarparu'r manylion priodol sy'n egluro'r weithdrefn.

D5

Rhaid i chi barchu hawliau eich cleifion i breifatrwydd a chyfrinachedd, a chynnal a diogelu gwybodaeth cleifion yn effeithiol.

Cyfrinachedd

1. Mae cynnal cyfrinachedd cleifion yn cynnwys y canlynol:
 - 1.1 cadw enwau a gwybodaeth bersonol arall am eich cleifion yn gyfrinachol, yn ogystal ag unrhyw farn sydd gennych amdanynt yn sgil eich gwaith
 - 1.2 sicrhau bod eich staff neu unrhyw arall sy'n mynychu eich clinig yn rhinwedd eu gwaith (er enghraifft, myfyrwyr osteopatheg, darpar fyfyrwyr neu gymheiriaid) yn cadw gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol
 - 1.3 sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol hyd yn oed ar ôl i'r claf farw
 - 1.4 peidio â rhyddhau manylion meddygol neu wybodaeth am ofal claf i neb – na thrafod gwybodaeth o'r fath â neb – gan gynnwys eu gŵr/gwraig, partner neu aelod arall o'u teulu, oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan y claf i wneud hynny (gweler safon D5(7) a safon D5(8) isod)
 - 1.5 rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei diogelu rhag mynd ar goll, cael ei dwyn na'i datgelu'n amhriodol.
2. Mae gan gleifion hawl i gael copiau o'u nodiadau, ac os gwneir cais o'r fath, rhaid i chi gydymffurfio ag ef yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chanllawiau ymarfer da.

Rheoli gwybodaeth cleifion

3. Dylai fod gennych ddulliau digonol a diogel o storio gwybodaeth a chofnodion cleifion. Dylid cadw cofnodion cleifion:
 - 3.1 am o leiaf wyth mlynedd ar ôl eu hymgyngoriad diwethaf
 - 3.2 os mai plentyn yw'r claf, tan ei ben-blwydd yn 25 oed.
4. Dylai fod gennych bolisi ysgrifenedig ynglŷn â chadw, trosglwyddo a chael gwared ar wybodaeth a chofnodion cleifion, a dylai nodi a yw'n arfer gennych eu cadw am fwy nag wyth mlynedd, neu yn achos plentyn, ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 25 oed. Dylai eich cleifion fod yn ymwybodol o hyn.
5. Dylech wneud trefniadau i gofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel wedi i chi roi'r gorau i ymarfer, neu ar ôl i chi farw neu yn sgil eich analluogrwydd. Dylai cleifion wybod sut i gael gafael ar eu cofnodion mewn amgylchiadau o'r fath.

6. Rhaid i chi gydymffurfio â'r gyfraith sy'n ymwneud â diogelu data a deddfwriaeth gysylltiedig. Am ragor o wybodaeth am ddiogelu data, ewch i wefan Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU.

Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

7. Gallai fod adegau pan fyddwch eisiau gofyn i'ch claf (neu rywun arall ar eu rhan) am ganiatâd i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol amdanynt; er enghraifft, os ydych angen rhannu gwybodaeth â gweithiwr gofal iechyd arall. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylech:
 - 7.1 egluro i'r claf pam eich bod eisiau datgelu'r wybodaeth, a sicrhau eu bod yn deall beth fyddwch chi'n ei ddatgelu, i bwy y byddwch yn ei ddatgelu, y rhesymau dros ei ddatgelu, a'r canlyniadau tebygol
 - 7.2 gadael iddynt wrthod rhoi caniatâd os ydynt yn dymuno
 - 7.3 os ydynt yn cytuno, gofyn iddynt ddarparu caniatâd ysgrifenedig neu lofnodi ffurflen gydsynio
 - 7.4 rhoi gwybod i'r sawl y byddwch yn datgelu'r wybodaeth iddynt fod yn rhaid iddynt barchu cyfrinachedd y claf
 - 7.5 peidiwch â datgelu mwy na'r wybodaeth sydd angen i chi ei datgelu (er enghraifft, a oes angen i'r sawl sy'n ei derbyn wybod holl hanes meddygol y claf?).

Datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad

8. Yn gyffredinol, ni ddylech ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am glaf heb eu cydsyniad; fodd bynnag, gallai fod yn rhaid i chi wneud hynny mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft:
 - 8.1 os oes gorfodaeth arnoch drwy orchymyn llys neu awdurdod cyfreithiol arall. Ni ddylech ddatgelu mwy na'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y gorchymyn hwnnw.
 - 8.2 os yw'n angenrheidiol er lles y cyhoedd. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae eich dyletswydd i'r gymdeithas yn bwysicach na'ch dyletswydd i'ch claf. Gallai hyn ddigwydd os yw claf yn rhoi ei hun neu eraill mewn perygl difrifol; er enghraifft, drwy'r posibilrwydd o heintio, neu weithred droseddol dreisgar neu ddifrifol.
 - 8.3 os yw'n angenrheidiol, er lles iechyd y claf, i rannu gwybodaeth gyda'u cynghorydd meddygol, gwarcheidwad cyfreithiol neu berthnasau agos, ac nad yw'r claf yn gallu rhoi cydsyniad.
9. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe'ch cynghorir yn gryf i ofyn am gyngor cyfreithiol priodol.
10. Os oes angen i chi ddatgelu gwybodaeth heb gydsyniad eich claf, dylech roi gwybod i'r claf, oni bai eich bod wedi eich gwahardd yn benodol rhag gwneud hynny (er enghraifft, mewn ymchwiliad troseddol), neu os oes rheswm da arall dros beidio â gwneud hynny (er enghraifft, lle gallai'r claf droi'n dreisgar).
11. Dylai unrhyw ddatgelu gwybodaeth fod yn gymesur ac yn gyfyngedig i'r manylion perthnasol.
12. Os na roddir gwybod i glaf cyn i wybodaeth gyfrinachol gael ei datgelu, dylech gofnodi'r rhesymau pam na fu modd gwneud hynny a chadw'r cofnod gyda chofnodion y claf.

D6

Rhaid i chi drin cleifion yn deg a chydabod amrywiaeth a gwerthoedd unigolion. Rhaid i chi gydymffurfio â deddfau cydraddoldeb a gwrthwahananiaethol.

1. Dylech fod yn gyfarwydd â'r gofynion sy'n berthnasol i chi o dan ddeddfau cydraddoldeb.
2. Mae'n anghyfreithlon i chi wrthod gwasanaeth i rywun ar sail eu hoedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

D7

Rhaid i chi gynnal enw da'r proffesiwn bob amser drwy eich ymddygiad, yn y gweithle a thu allan i'r gweithle.

1. Gall ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn (ac enw da'r proffesiwn yn gyffredinol) gael ei danseilio gan ymddygiad proffesiynol neu bersonol osteopath. Dylech ystyried eich statws proffesiynol, hyd yn oed pan nad ydych yn gweithredu fel osteopath.
2. Gall cynnal enw da'r proffesiwn gynnwys y canlynol:
 - 2.1 gweithredu o fewn y gyfraith bob amser (gall euogfarnau troseddol fod yn dystiolaeth nad yw osteopath yn addas i ymarfer)
 - 2.2 dangos tosturi tuag at gleifion
 - 2.3 dangos cwrteisi proffesiynol tuag at y bobl y byddwch yn cydweithio â nhw
 - 2.4 ymddwyn yn onest yn eich ymwneud personol a phroffesiynol ag eraill
 - 2.5 cynnal ymddygiad proffesiynol o'r un safon ar-lein ag y byddai disgwyl i chi ei wneud ym mhobman arall
 - 2.6 peidio â chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau
 - 2.7 peidio ag ymddwyn mewn modd ymosodol neu dreisgar yn eich bywyd personol neu broffesiynol
 - 2.8 peidio â gadael i anghydfod proffesiynol achosi i chi fethu cyrraedd y safonau disgwylidig
 - 2.9 peidio â ffugio cofnodion, data, na dogfennau eraill.

D8

Rhaid i chi fod yn onest a dibynadwy yn eich trafodion ariannol, boed broffesiynol neu bersonol.

1. Dylech godi tâl yn gyfrifol ac mewn ffordd sy'n osgoi dwyn anfri ar y proffesiwn.
2. Er mwyn osgoi unrhyw anghydfod ynghylch ffioedd, byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n sicrhau bod gwybodaeth eglur ac amlwg ar gael gennych am ffioedd cleifion a pholisïau codi tâl.
3. Ni ddylech roi pwysau ar glaf i ymrwymo i driniaeth na ellir ei chyfiawnhau.
4. Ni allwch argymell cynhyrchion neu wasanaethau i gleifion oni bai eu bod, yn eich barn broffesiynol chi, yn mynd i fod o fantais iddynt.

5. Dylech ddweud wrth eich cleifion os ydych yn cael unrhyw fuddion ariannol neu fudd arall am eu cyflwyno i weithwyr proffesiynol neu sefydliadau masnachol eraill. Ni ddylech ganiatáu i sefydliad o'r fath ddefnyddio eich enw at ddibenion hyrwyddo.
6. Dylech gadw cofnodion ariannol trylwyr ar gyfer eich ymarfer.

D9

Rhaid i chi gefnogi cydweithwyr a chydweithio â nhw er mwyn gwella gofal i gleifion.

1. Os ydych yn rhannu gofal am gleifion gyda gweithwyr proffesiynol eraill, dylech ystyried pa mor effeithiol yw eich trefniadau trosglwyddo. Gellir trosglwyddo'n effeithiol ar lafar, ond mae nodi'r trosglwyddiad yng nghofnodion osteopathig y claf yn arfer da.
2. Rydych yn gyfrifol am yr holl staff a gyflogir gennych yn eich clinig (gan gynnwys staff gweinyddol) ac am eu hymddygiad, ac unrhyw ganllawiau neu gyngor y maent yn ei roi i gleifion. Dylech sicrhau bod staff yn deall pwysigrwydd:
 - 2.1 cyfrinachedd cleifion
 - 2.2 storio a chadw cofnodion meddygol yn ddiogel
 - 2.3 cysylltiadau priodol â chleifion, cydweithwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
 - 2.4 cwynion a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer eu trin
 - 2.5 cynnal amgylchedd gwaith diogel
 - 2.6 iechyd a diogelwch
 - 2.7 dyletswyddau cydraddoldeb ac arferion da.
3. Os ydych yn gyfrifol am weithiwr cyswllt neu gynorthwydd, dylech ddarparu cymorth proffesiynol ac adnoddau digonol iddynt allu cynnig gofal priodol i'w cleifion. Ni ddylech eu rhoi dan ormod o bwysau, neu ddisgwyl iddynt weithio oriau rhy hir. Ni ddylech ddisgwyl iddynt ddarparu unrhyw driniaeth y tu hwnt i'w cymhwysedd.
4. Os yw eich practis yn cyflogi staff cymorth, dylech sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u bod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau cyfreithiol sy'n angenrheidiol i gyflawni eu swydd.

D10

Rhaid i chi ystyried cyfraniadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill er mwyn sicrhau'r gofal gorau i gleifion.

1. I gyflawni hyn, dylech:
 - 1.1 drin gweithwyr iechyd a gofal eraill gyda pharch, gan gydnabod eu rôl yng ngofal eich cleifion; dylai unrhyw sylwadau a wnewch am weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fod yn onest, yn ddilys ac yn gywir
 - 1.2 deall cyfraniad osteopatheg yng nghyd-destun gofal iechyd yn ei gyfanrwydd

- 1.3 dilyn gweithdrefnau atgyfeirio priodol wrth atgyfeirio claf, neu pan fo claf wedi'i atgyfeirio atoch chi
- 1.4 gweithio'n gydweithredol gyda darparwyr gofal iechyd eraill i sicrhau bod y claf yn cael y gofal gorau, lle bo dulliau o'r fath yn briodol ac ar gael.

D11

Rhaid i chi sicrhau nad yw unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar eich asesiad eich hun o'r risg i gleifion.

1. Os ydych chi'n gwybod neu'n amau bod eich iechyd corfforol neu eich iechyd meddwl yn ddiffygiol mewn ffordd a allai effeithio ar y gofal rydych yn ei roi i'ch cleifion, rhaid i chi wneud y canlynol:
 - 1.1 cael cyngor meddygol priodol ar sut i addasu eich ymarfer os oes angen, a dilyn y cyngor hwnnw
 - 1.2 rhoi'r gorau i ymarfer os oes angen nes bod eich cynghorydd meddygol yn credu eich bod yn ddigon iach i weithio eto
 - 1.3 rhoi gwybod i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
2. Os ydych wedi dod i gysylltiad â chlefyd trosglwyddadwy difrifol, a bod gennych le i gredu eich bod yn cario'r clefyd, ni ddylech ymarfer hyd nes y byddwch wedi cael cyngor meddygol priodol, a dylech ddilyn unrhyw gyngor a roddir i chi ynglŷn ag atal neu addasu eich ymarfer. Dylech wneud popeth sy'n angenrheidiol i ofalu nad ydych yn trosglwyddo'r cyflwr i'ch cleifion.

D12

Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ynglŷn ag unrhyw wybodaeth arwyddocaol ynghylch eich ymddygiad a'ch cymhwysedd, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad neu geisiadau am wybodaeth a chydymffurfio â phob gofyniad rheoleiddiol.

1. Byddai gwybodaeth o'r fath ynglŷn â'ch ymddygiad a'ch cymhwysedd yn cynnwys y canlynol:
 - 1.1 bod yn ddarostyngedig i achos rheoleiddiol gan gorff proffesiynol mewn unrhyw ran o'r byd
 - 1.2 cael eich cyhuddo o drosedd mewn unrhyw ran o'r byd
 - 1.3 cael rhybuddiad gan yr heddlu
 - 1.4 cael eich atal dros dro neu eich rhoi dan gyfyngiad ymarfer gan eich cyflogwr neu sefydliad tebyg yn sgil pryderon ynglŷn â'ch ymddygiad neu eich cymhwysedd.

Geirfa

Mae rhifau tudalennau mewn print trwm yn dynodi prif adran ar y pwnc.

Achos

dadansoddiad B1(1.12.4)
hanes C1(1.1) C1(1.2)

Adborth

gan gleifion B1(1.12.2)
gan gydweithwyr B1(1.12.3)

Adroddiadau

C3(1.1)

Adwaith anffafriol

C1(1.7)

Anffurfio organau cenhedlu benywod

C4(6)

Archwiliad/triniaeth

cydsynio i **A4**
defnydd o gwmni yn yr ystafell A6(5-8), C2(1.14,1.15)
heb gydsyniad A4(1), D2(5.3)
plant a phobl ifanc A4(15-17)
rhannau preifat o'r corff A4(9, 20), A6(5.1)
teulu a ffrindiau D2(5.9)

Argyfwng meddygol

C5(4)

Ariannol

cofnodion D8(6)
elw D(1.5-1.7), D8(5)
gweithgareddau D8

Arsylwr, mewn ymgynghoriadau

C2(1.15)

Atgyfeirio at weithwyr gofal iechyd

proffesiynol eraill A2(5.1), B1(1.3), B2(2.3), C1(1.10),
C3(1.1), D2(5.5), D10(1.3)

Camddefnyddio

alcohol/cyffuriau D7(2.6)
statws proffesiynol **D2**

Camgymeriadau ac unioni

C1(1.9)

Cartref, triniaeth yng nghartref claf

A6(5.4)

Clefydau trosglwyddadwy

C5(5), D11(2)

Cleifion

adborth gan B1(1.12.2)
agored i niwed A1(2), A4(5), C4(1-2), D2(3), D2(5.8.3)
amddiffyn **C4**
anghenion **A1**, A2(3), C1(1.1)
archwilio A3(1.1), A4, A6, C1(1.5)
benthyca arian gan D1(1.7)
cofnodion **A4(18-20)**, A6(8), C1.2, **C2**

credoau	A1(4), A4(11)
derbyn/gwrthod	A7(3)
dibyniaeth arnoch chi	D2(4)
diogelu	C4
dyletswydd i	D(1.1)
dymuniadau	A1 , A7(1), C1(1.4.3)
gofal	C3(1.1), D2(3), D3(1)
gwerthoedd	A1(4), C1(1.4.3), D6
gwerthuso	C1
gwrthod triniaeth i	A4(6)
gwybodaeth	A3 , C3(1.1), D3(1), D4(3), D5
hawliau	A3(1.1), A7(1.3), D5
iechyd a lles	A5
lles gorau	C1(1.8), C1(1.9), D(1.2)
pwysau ar	D(1.5)
swildod	A6
urddas	A1, A6
ymosodol	A7(3.1)

Clinigol

archwiliad	B1(1.12.4)
asesiad	C1(1.2)
barn	B(1.3), D2(5.9)
canfyddiadau	B(1.8), C2(1.5)
gwerthusiad	B(1.9)
gwybodaeth	A6(2.3)
penderfyniadau	B(1.4, 1.10)
perthynas	A2(1)
ymateb	C2(1.5)

Cofnodion

ariannol	A4(18-20) , A6(8), C1(2), C2
cadw	D8(6)
cwmni/arsylwyr	D5(3-6)
cydsyniad	A6(8), C2(1.15)
datgelu heb gydsyniad	A4(18-20) , C2(1.8)
mynediad cleifion at gofnodion	D5(12)
storio ac adalw	D5(2), D5(5)
trosglwyddo gofal	C3(1.2), D5(1.5), D9(2.2)
	D9(1)

Credoau

cleifion	A1(4), A4(11)
eich hun	A7

Cydweithwyr

adborth gan	B1(1.12.3)
adrodd pryderon wrth	C4(3.2)
cefnogaeth i	D9(1)
cydweithredu â	D9

cyngor gan
perthynas â
pryderon am
sylwadau am
ymddygiad

D2(4, 5.5)
D3(2), D9(2.3)
C4(3)
D10(1.1)
C4(3)

Cyfathrebu â chleifion

A1-A3, C1(1.1), C1(1.3), C2(1.6),
C2(1.10), D5(7)

Cyfreithiol

cyngor
dyletswyddau staff
gofynion

D5(9)
D9(4)
A4(1), B3(1.2.2), C4(6),
C5(2), D5(6), D6

Cymhwysedd

terfynau

C1(1.4.4)

B2

Cwmni yn yr ystafell

A6(5-8), C2(1.14, 1.15)

Cwynion

cyfeirio cwynion at
y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

D4(6)

hysbysu yswirwyr
polisi

D4(5)
D4, D9(2.4)

Cydraddoldeb

cydraddoldeb ac amrywiaeth
cyfraith

A1(4), A7(1), **D6**
D6, D9(2.7)

Cydsynio

ar sail gwybodaeth
cofnodi cydsyniad
cydsyniad plant a phobl ifanc
gallu i

A4
A4(6-9)
A4(18-20), C2(1.15), C2(1.8)
A4(14-17)
A4 (3.3), A4(10-13), A4(15),
A4(19), A6(5.3)
A4(1), D2(5.3)

gofyniad cyfreithiol
i archwilio/trin
rhannau preifat o'r corff
i arsylwyr/cwmni yn yr ystafell
i rannu gwybodaeth
triniaeth heb gydsyniad

A4(9, 20), A6(5.1)
C2(1.15)
A4(21), D5(1.4), **D5(7-12)**
A4(1), D2(5.3)

Cyfrinachedd

data ymarfer
diogelwch rhag niwed a
hawl claf i

C3(1.2), D9(2.1-2)
C4(4)
D5

Cyhoedd

iechyd	C5(5), C6
lles	D5(8.2)
ymddiriedaeth	D7(1)
yswariant atebolrwydd	C5(3)

Cyhoeddusrwydd – gweler hysbysebu a chyhoeddusrwydd**Cyngor**

cyfreithiol	D5(9)
gan gorff proffesiynol	D2(4), D2(5.5)
gan gydweithwyr	D2(4), D2(5.5)
gofyn am	B2(1,2), D11(1.1)
i gleifion	A2(5.2), C2(1.6), D9(2)
meddygol	D11(1.1, 2)

Cynnyrch, gwerthu/argymell

D(1.5, 1.6), D8(4)

Data

cynhyrchu	C3
deddfau diogelu data	D5(6)
gwerthuso	B1(1.5, 1.10)
storio ac adalw	C3(1.2), D5(3-6)

Datgelu gwybodaeth cleifion

gorfodaeth i	D5(7)
heb ganiatâd	D5(8)
	D5(8-12)

Diagnosis gweithredol

C1(1.3), C1(1.4.1), C2(1.7)

Diogelu**C4****Doctor, defnydd o'r teitl**

D2(2.3)

Dyletswydd gonestrwyddC1(1.9), **D3****Enw da'r proffesiwn****D7**, D8(1)**Ffioedd**

D8(1-2)

Gallu i gydsynio gweler Cydsynio, gallu i**Gofal cleifion**

datblygu	D2(5.9)
effaith niweidiol ar	D1
gwybodaeth i gefnogi	C3(1.1)
monitro effeithiau	C1(1.8)
os oes rhywbeth yn mynd o'i le	D3(1)
safon	D3(1), D4(1)
sicrhau'r gofal gorau	D10
terfynu	C1(1.8)
tu allan i amgylchedd y practis	C1(2) , C2(1.13)

Gofynion adrodd		C4(6)
Gofynion rheoleiddiol		D12
Gonestrwydd		A3(2), C2(3), D1, D3, D7(2.4, 2.9), D8, D10(1.1)
Gwasanaethau cymdeithasol a risg o niwed		C4(4)
Gweithdrefnau trosglwyddo		D9(1)
Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill		A5(1.3), B1(1.3), B2(2.2), C3(1.2), D8(5), D9(1), D9(2.3), D10 B2(2.2), C6(1), D10 D10(1.1)
	cyfraniadau i ofal cleifion sylwadau	
Gwerthoedd		A1(4), C1(1.4.3), D6 A7
	cleifion yr osteopath	
Gwybodaeth		D5 C3(1.1) D2(2.2) C3(1.1, 1.2) D5(7-12) D5(8-12) A3, D3(1), D4(3) A4(21), D5(1.4), D5(7-12) C3(1.2) D8(2)
	am gleifion cyflwyno cywirdeb darparu datgelu gwybodaeth gyfrinachol datgelu heb gydsyniad i gleifion rhannu y claf ynghylch ffioedd	
Gwybodaeth a Sgiliau		B3 B1-B4 B1, B3
	cyfredol osteopathig penodol	
Heddlu		C4(4) D12(1.3)
	cysylltu â'r heddlu os oes risg o niwed rhybuddiad	
Hyfforddiant, cyfyngiadau		B2
Hysbysebu a chyhoeddusrwydd		D1(2.1) D1(2.1) D1 D1(2.4)
	ASA camarweiniol niwsans	

Hysbysu	Cyngor Osteopathig Cyffredinol yswiriwr	D11(1.3), D12 D4(5)
Iechyd	cydweithwyr eich hun y cyhoedd	C4(3) B1(1.11), D11 C, C6(1)
Iechyd a diogelwch		C5, D(2.5, 2.6)
Myfyrio		B1(1.12.1), B4
Perthynas	â chleifion â chleifion blaenorol â chydweithwyr clinigol therapiwtig	D2(3-4), D2(5), D9(2.3) D2(5.6-5.8) D3(2), D9(2.3) A2(1) D2(2)
Plant	cadw cofnodion cydsyniad cyfraith amddiffyn cyfrifoldeb rhiant triniaeth	D5(3.2, 4) A4(14-17) C4(1,2) A4(15) A4(15-17)
Practis	data iechyd a diogelwch safle staff	C3(1.2) B3(1.2.2), C5, D9(2.6) C5(1) D4(4), D5(1.2), D9(2-4)
Proffesiynol	barn/crebwyll statws terfynau uniondeb ymarweddiad	B2(1), D8(4), A4(15) A4(17) D2(1), D2(3), D2(5.6), D7(1) D2 D1 A7(2)
Pryderon, lleisio/adrodd am		C4(3-6)
Rhywiol	perthynas â chleifion sylwadau terfynau	D2(2), D2(5.2), D2(5.4), D2(5.5), D2(5.1.3) D2(1,2,5)
Risg, cyfathrebu		A3(2) , A4(6)
Staff, trin		D9(3-4)
Techneg osteopathig		C1(1.5)

Teitl, defnydd o		D1(2.3)
Terfynau, cynnal	rhywiol	D2 D2(2), D2(5)
Triniaeth	addasu dull o roi cofnod o cydsynio i cynllun dewisiadau amgen yn lle diangen gwrthod heb gydsyniad plant a phobl ifanc rhannau preifat o'r corff ymatal rhag rhoi ymateb i	C1(1.5) C2(1.9) A4 C1(1.4), C2(1.7) A2(5.2, 5.3) D(1.2), D(1.4), D8(3) A4(6) D2(5.3) A4(14-17) A4(9,20), A6(5.1) D(1.3) C1(1.5-1.10) , C2(1.12)
Troseddol	cyhuddiad o drosedd euogfarn droseddol	D12(1.2) D7(2.1)
Tystiolaeth	o gydsyniad	B4(1), C1(1.4.2) A4 , A4(18,19)
Uniondeb	diffyg	D1 D1(1.1)
Ymateb i driniaeth		C1(1.5-1.10) , C2(1.12)
Ymddiriedaeth		D(2), D4(1), D7(1)
Ymddygiad	ar-lein cydweithwyr eich hun staff y claf	D7(2.5) C4(3) D2 (5.1, 5.2), D7, D12 D9(2) A4(11), D2(5.5)
Yswiriant	atebolrwydd cyhoeddus indemniad proffesiynol	C5(3) D1(3), D4(5)
Yswirwyr, hysbysu		D4(5)





Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

Email: info@osteopathy.org.uk

Tel: +44 (0)20 7357 6655

osteopathy.org.uk